

Pris: 50c

Papur Pawb

Chwefror 2020

Rhif 456



Beth mae Linda'n wneud? tud. 12

tud 4	tud 8	tud 10	tud 12
Ysgol Tal-y-bont	Dydd a Nos	Y Gair Olaf	Chwaraeon

DŴR CYMRU DAN Y LACH

Mae preswylwyr gwaelod pentref Tal-y-bont yn parhau’n anffodlon iawn gydag ymateb Dŵr Cymru i broblemau carthffosiaeth a llifogydd yn y rhan honno o’r pentref. Nid am y tro cyntaf, bu problemau gyda’r system garthffosiaeth. Yn ystod trydedd wythnos Ionawr, rhwygodd y brif bibell a oedd yn cludo carthffosiaeth y pentref o’r orsaf bwmpio ar ddiwedd Stryd James hyd at y gwelyau hidlo ddwywaith o fewn cyfnod o bedair awr ar hugain.

Roedd y byrstio cychwynnol o dan Gae’r Sioe ar ddydd Iau 23ain Ionawr ac yna cafwyd holltiad arall fore Gwener yn Stryd James / Pantycalch. Hwn oedd y trydydd digwyddiad o’r fath yn Stryd James yn unig yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Mae’r gwaith atgyweirio’n cynnwys cloddio dwfn sy’n achosi aflonyddwch ac anghyfleustra i drigolion yr ardal ar wahân i’r peryglon iechyd posibl sy’n gysylltiedig ag elifant heb ei drin.

Un sydd wedi dioddef tipyn o’r problemau hyn yw Barry Morgan a dywedodd wrth *Bapur Pawb*: “Mae’r system yn hen ac yn chwalu... rydym yn galw ar Dŵr Cymru i uwchraddio system garthffosiaeth y pentref yn hytrach na gwneud atgyweiriadau patsh brys yn unig”.

Yn ogystal â’r problemau diweddaraf gyda system garthffosiaeth, bu Grŵp Cymunedol Llifogydd Talybont yn trafod y cynlluniau i amddiffyn y pentref rhag llifogydd.

Mae bron i wyth mlynedd ers i 27 o dai ddioddef yn sgil glaw mawr Mehefin 2012, ac er bod llawer o waith wedi ei wneud i leddfu ar effeithiau posibl digwyddiad tebyg mewn llefydd fel Dol-y-bont, does dim byd wedi ei wneud yn Nhal-y-bont.



Clywodd y cyfarfod bod Cyngor Sir Ceredigion wedi ceisio penodi arbenigwyr i ymgymryd â’r gwaith ar ddau achlysur ond heb lwyddiant.

Mae llawer o waith wedi ei wneud eisoes ar gynlluniau ar gyfer arafu llif yr afonydd uwch law Tal-y-bont. Bwriad y Grŵp Llifogydd yw parhau i bwysu er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yma yn cael eu rhoi ar waith.

Yn y cyfamser, adnewyddwyd y cynllun llifogydd brys sydd wedi cael ei ddatblygu gan y grŵp. Mae hwn yn nodi camau sydd i’w cymryd petai dilyw tebyg i haf 2012 yn digwydd eto.

Storm Ciara a Haelioni Tafarn Leol



Mae’n braf gwybod ein bod yn byw mewn cymuned mor ofalgar a charedig a ninnau’n clywed mwy a mwy o straeon am unigrwydd a difaterwch cymunedol. Fel y rhybuddiwyd daeth storm Ciara â gwynt a glaw nerthol yn ei sgil gan greu problemau i lawer yn yr ardal. Nid oedd modd cynnal y sesiwn rhedeg cymdeithasol wythnosol nac ysgol Sul Capel Bethel ac amharodd toriad yn y cyflenwad trydan ar siop a chaffi Cletwr. Ond roedd Chris a Michelle o dafarn y *Wildfowler*, Tre’r Ddôl, yn poeni am les eu cymdogion ac wedi rhoi cynnig hael i bawb alw draw atynt am ddiodydd poeth a chawl a chyfle i gadw’n gynnes a sgwrsio o flaen tanllwyth o dân. Mae gweithred o’r fath yn codi calon ac yn dangos pa mor bwysig yw gwneud y pethau bychain a meddwl am eraill. Diolch yn fawr iddynt am eu haelioni a’u caredigrwydd.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Cysyllter â golygyddion y mis

Tynnu lluniau:

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Lynwen Morgan 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths (01654) 781264
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Is-gadeirydd: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwennllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwennllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gwpeplyr (@papurpawb)

Llythyr

Llety'r Bugail Tal-y-bont

Trist iawn oedd darllen Y Gair Olaf gan Dilwyn Jenkins yn Papur Pawb Ionawr 2020, yn dweud bod gwyfynod wedi darfod yn llwyr o Gors Fochno.

Yr oedd ein cyndeidiau yn gofalu llosgi'r gors yn rheolaidd bob gaeaf, fel bod y gwyfynod yn cael tyfiant iach bob blwyddyn.

Digwyddodd yr un fath i afon Ceulan – 'roedd yr afon yn fyw o frithyll braf deng mlynedd yn ôl. Dyna'r pryd y gwelais ddwrgi cyntaf erioed, 'roeddent i'w gweld liw dydd.

'Does dim un pysgodyn wedi bod yn yr afon ers pum mlynedd, mae'r dwrgi wedi mynd â nhw i gyd. Mae'r afon yn hollol farw erbyn hyn, heb un dwrgi na physgodyn ynddi.

Carwn ofyn i'n naturiaethwyr, sut fath o warchod yw hyn? Nid yw o unrhyw ddiben creu deddfau i ochri'r cryf, rhaid meddwl am y gwan hefyd.

Gwilym Jenkins

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Tylino Thai Trefechan

Trefechan Thai Massage

Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

mae angen

Gohebyddion Lleol

i gasglu newyddion yn

Nhre'rddôl a Thaliesin

Oni bai y cawn wirfoddolwyr/wragedd ar gyfer y cyfrifoldebau hyn ni allwn sicrhau tegwch i drigolion yr ardal yng ngholofnau'r papur.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r golygydd cyffredinol:
gwynjenkins81@gmail.com (832560)

Dyddiadur

CHWEFROR

14 Sesiwn Nos Wener Gwenan
Gibbard 8 Y Llew Gwyn

15 Dal Ati 11–12 Cletwr

16 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 10 Prysor Mason
Davies
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Gweddi Hwyr
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Gweddi Foreol
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Hwyr Weddi

17 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r
Cylch 'Y Lolfa, Cara a mwy'
(Meinir Wyn Edwards)

20 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haeam,
Eglwysfach

21 Cwis 8 Wildfowler

22 Bore Coffi 10.30–12 Yr Ystafell
Haeam, Eglwysfach

23 Bethel 10 Geraint Evans
Rehoboth 5 Wyn Morris
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid

23 Gweithdy: Canu gyda Iona 4–6
Cletwr
Caffi Marwolaeth 7–8.30 Cletwr

25 Cymdeithas Treftadaeth
Llangynfelyn 'Why are
Mediaeval Churches important'
(Richard Suggett) 7.30 Llanfach
Pwyllgor Eisteddfod Ceredigion
2020 7 Neuadd Goffa Tal-y-bont
Tennis Bwrdd 7.30 Yr Ystafell
Haeam, Eglwysfach

26 Cylch Crefft 7–8.30 Cletwr

27 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haeam,
Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler

29 Taith: Archwilio Tirweddau
Micro 11–1 Cletwr
Hwyl Ddewi 6.30 Neuadd Goffa
Tal-y-bont
Noson Meic Agored 7.30–9.30
Cletwr

MAWRTH

1 Bethel 5 Uno yn Nasareth
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 5 Uno yn Nasareth
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Cymun Bendigaid

2 Sefydliad y Merched
Eglwysfach Jane Leggett

3 Sefydliad y Merched Taliesin
Swper Gŵyl Ddewi

4 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haeam,
Eglwysfach

6 Cwis 8 Wildfowler

8 Bethel 10 Elfed Lewis
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30

10 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 'Hanes Cenhadwr Môr
y De' (Marian Rees)
Tenis Bwrdd 7.30 Yr Ystafell
Haeam, Eglwysfach

12 Tai Chi 2 Yr Ystafell Haeam,
Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler

13 Clwb Llyfrau 2.30 Yr Ystafell
Haeam, Eglwysfach

Cletwr
Bob dydd Mawrth: 'Clonc a Gweu'
3–5
Bob dydd Sul: 'Rhedeg Cymdeithasol'
9.30–10.30

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfod y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com (01970 832478) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Neuadd Goffa Tal-y-bont

HWYL DDEWI 2020

Nos Sadwrn 29 Chwefror
Cawl a Chân yng
nghwmni

BOIS Y GILFACH

Gweinir Cawl am 6.30
Adloniant 7.30

Tocynnau:
£10 i oedolion
£4 i blant ysgol

Rhennir yr Elw â Chronfa
Ceulanamaesmawr
Eisteddfod Ceredigion 2020

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT

CYFARFOD BLYNYDDOL

Nos Lun 2 Mawrth 2020

8:00 yh

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

Croeso cynnes i bawb

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Llio a Cathryn, gyda Iolo yn dylunio. Diolch iddynt. Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Non a Gerwyn (nonjones100@yahoo.co.uk). Dyma'r tro cyntaf i'r ddau ymgymryd â'r dasg felly rhowch bob cefnogaeth iddynt. Y dyddiad cau yw 6 Mawrth a bydd y papur ar werth ar 15 Mawrth.

Wyres Newydd
Cafodd John a Frances Foster, Bristol House, Tal-y-bont, galennig arbennig ar Ionawr y cyntaf pan aned eu hwyres fach gyntaf, Asha Rose Leighton, i'w merch Molly a'i chymar Zac. Pob dymuniad da i'r teulu bach yng Nghaerdydd a llongyfarchiadau i Mamgu a Dad-cu Foster.

Cartrefi Newydd
Pob dymuniad da i Sadie Jenkins, gynt o Faes-y-deri, Tal-y-bont sydd newydd ymgartrefu yng Nghartref Tregerddan, Bow Street. Cofion cynnes atoch Sadie.

Ac un sydd wedi dychwelyd yn ôl i fyw i Dal-y-bont yw Dawn Wainwright. Bu Dawn, ei chwaer a'i brawd yn ddisgyblion yn Ysgol Tal-y-bont nifer o flynyddoedd yn ôl. Bellach mae hi'n datblygu cynnyrch mêl Cymreig newydd o dan yr enw 'Wainwrights' Dymunwn bob hapusrwydd i ti yn dy gartref newydd.

Yn yr Ysbyty
Bu raid i John Roberts, Felin Llifio, Tal-y-bont dreulio'r Nadolig yn Ysbyty Bronglais wedi iddo gael llaw driniaeth.

Yn ysbyty Glangwili, Caerfyrddin derbyniodd Robat Gruffydd, Bryngwyn, Tal-y-bont hefyd driniaeth frys.

Gobeithio bod y ddau ohonoch yn teimlo'n well erbyn hyn.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â David Jones a'r teulu Berthlwyd ac Ifor Jones, Llys Ynyr, Tal-y-bont gan iddynt golli cyfnith yn ddiweddar.

Hefyd, wedi blynyddoedd o waeledd, bu farw tad Ruth Dennis, Maes y felin, Tal-y-bont yng Nghaerdydd, a thad-cu i'r



Y CRYNWYR

HOLI AC ADDOLI
CWRDD CYFRWNG CYMRAEG
Y trydydd Sul o'r mis 16 Chwefror am 3 pm
TY CWRDD Maes Maelor Penparcau SY23 1SZ

CROESO CYNNES I BAWB
Ymholiadau: 01970 612794 medijames22@gmail.com



Amser Ail Feddwl Terfyn Cyflymder Ffwrnais ac Eglwysfach
Sôn am fod yn y man anghywir ar yr adeg anghywir. Dyna yn union a ddigwyddodd i Ben Williams, Cledan ar Nos Fawrth Ionawr yr 21ain.

Cafodd ddamwain erchyll o flaen ei dŷ, gan gerbyd oedd yn cael ei yrru yn afreolus a chyflym drwy'r pentref i gyfeiriad Machynlleth, gan ei wasgu rhwng dau gerbyd.

Mae ei anafiadau yn ddifrifol, gan iddo dorri ei ddwy goes, ei bigwrn, ei ben-glin a'i glun. Caewyd y ffordd fawr am oriau.

Da yw deall ei fod gartref o'r ysbyty ac yn cael gofal gan ei deulu a'i ffrindiau.

Mae'r Cyngor Bro wedi bod yn ymgyrchu ers blynyddoedd maith i ostwng y cyflymdra trwy'r tri pentref yn y plwyf o 40 i 30 milltir yr awr. Gobeithir yn awr y caiff hyn ei wireddu, ac hynny cyn gynted â phosib.

bechgyn. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu.

Walïau'n Siarad
Bu cryn ganmol ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ysgrifenedig ac ar lafar i'r gyfres 'Walïau'n Siarad' sy'n cael ei darlledu ar S4C bob nos Sul. Mae pob pennod yn y gyfres yn trafod hanes a phensaernïaeth un adeilad penodol drwy gyflwyno storïau am y bobol oedd yn byw neu weithio yno. Rydyn ni yma yn Nhal-y-bont a'r cylch yn hynod o falch o Catrin M S Davies, Simne Wen, Tal-y-bont, gan mai hi yw cynhyrchydd y gyfres arbennig hon ac yn

rhan o'r tîm ymchwil mae dwy ferch ifanc o'r pentre hefyd sef Elan Elidyr a Mari Hedd. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Llongyfarchiadau!
Llongyfarchiadau mawr i Flic Eden, Seaview Terrace, Taliesin, a ddaeth yn nain ddydd Nadolig 2019, pan aned Louis Ezra Collins i'w mab Kit a'i gyfar, Carly, yn Farmington, ger Rhydychen.

Pen-blwydd Arbennig
Pen-blwydd Hapus a phob dymuniad da i Josie Smith, Dyfi Villa, Taliesin, sy'n dathlu pen-blwydd arbennig 20 Chwefror.

Ffwrnais
Llongyfarchiadau i Tomos Jenkins, mab ieuengaf, Ynysgreigiog, ar lwyddo i fod yn fyfyrwr y flwyddyn 2019/2020 yng Ngholeg Reaseheath, Yr Heledd Wen (Nantwich). Mae Tomos yn gobeithio bod yn hyfforddwr rygbi, ac ar ei drydedd flwyddyn. Gobeithia fynd i Goleg Caerdydd i gwblhau ei gwrs. Eleni bydd yn cael profiad yn ysgol Glantwymyn. Cafodd ganmoliaeth am fod yn ddisgybl poblogaidd, brwdfrydig, cyfeillgar, ac roedd yn gapten ar dîm llwyddiannus y Coleg. Byddwn i gyd fel cymdogion yn dilyn ei hanes yn frwd! Da iawn ti Tomos!



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Arddangosfa-Chwefror

Dilyn-ôl-troed
Leib-Nussbaum
Un-ymhlith-6-miliwn
o-ddioddefwyr-yr-Holocaust

01970-617996
morlan.aber@gmail.com
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth-ŷ
SY23-2HH-01970-617996



Aberystwyth

Gwahoddiad i ymuno â ni yn ein

NOSON GWYL DDEWI

Canolfan y Gymuned, Waun Fawr
Dydd Sadwrn, Mawrth 7fed am 6.00yh
Cawl, Cân a Chwis
Siaradwr: Gwydion Lewis, Y Bala


Croeso Cynnes i Bawb!



www.eglwysefengylaidaberystwyth.co.uk



Cestyll a Dreigiau – Meic



Ysgol Iach – Finley a'i fedal



Blwyddyn Newydd China – y dreigiau



Cogurdd – Elen



Ymwelydd Anghyffredin – Timi



Gwersyll yr Urdd, Llangrannog



Cestyll a Dreigiau



Gwaith Celf



Cogurdd

Ysgol

Tal-y-bont

Gwersyll yr Urdd, Llangrannog

Eleni, aeth blwyddyn tri a phedwar Ysgol Tal-y-bont i Wersyll yr Urdd, Llangrannog. Aethon ni ar y nawfed o Ionawr a dod nôl ar y degfed. Cyrhaeddod ni'r gwersyll am tua hanner awr wedi deg y bore. Dangosodd Anwen Eleri o'r Urdd ble oedd ein hystafelloedd. Roedd dau i'r merched a dau i'r bechgyn. Cyn hir roedd hi'n amser cinio. Cawsom ni pitsa a sglodion.

Y gweithgareddau cyntaf oedd y trampolîns. Roedd rhai yn neidio fyny fry fel cangarw. Roedd y cwods yn teimlo'n beryglus ond yn llawer o hwyl. Nesaf roedd hi'n amser marchogaeth. Roedd pedwar plentyn ymhob grŵp ac roedd yn rhaid i ni gymryd tro i farchogaeth, tywys a brwsio'r ceffylau. Ar ôl marchogaeth cawsom ni de. I de cawsom ni greision a diod.

Ar ôl te, aethon ni ar y wal ddringo. I gynhesu gwnaethon ni ddringo'n lletraws. Wedyn aethon ni lan i frig y wal gyda rhaff. Cyn y gweithgareddau nos cawsom ni swper. I swper cawsom ni'r dewis o sbageti bolonês neu gacen bysgod a sglodion.

Dawns Mistar Urdd oedd nesa. Roedd angen cymryd pedwar cam ymlaen, pedwar naid yn nôl, dwy naid seren a dau gic, cyn newid cyfeiriad a'i wneud e i gyd eto tan i'r gerddoriaeth ddod i ben.

Wedyn aethon ni'n ôl i'r adeilad wal ddringo a gwneud sgiliau syrcau. Yno gwnaethon ni daflu tân (esgus bach), troelli platiau ar ffyn, cerdded ar olwynion, chwyrlio rhubanau, jyglo a cherdded ar stilts.

Roedd y Gemau Potes yn llawer o hwyl hefyd. Rhannon ni i dri grŵp a gwneud tair gweithgaredd:

1. Dojo'r Bêl
2. Pêl Droed Cranc
3. Pêl Rhwyd

Wedyn aethon ni nôl i'n hystafelloedd i newid i'n dillad disgo. Cerddod ni i'r disgo. Roedd hi'n swnllyd iawn yn y disgo ond fe gawson ni amser gwyh yn dawnsio ar y llwyfan.

Nawr roedd hi'n amser gwely ac roedd yn rhaid i ni ymolchi a brwsio dannedd. Roedd hi'n anodd mynd i gysgu oherwydd roedd hi mor boeth. Roedd hi tua hanner nos cyn bod oedd pawb yn cysgu!

Deffrodd Miss Morris ni am saith o'r gloch bore Gwener ond roedd hi'n teimlo fel oriau mân y bore. Pacion ni ac yna aethon ni i gael brecwast. I frecwast cawsom ni tost, cig moch, ffla pob, grawnfwyd a iogwrt. Roedd y neuadd fwyta dan ei sang. Ar ôl brecwast aethon ni i nofio. Roedd y pwll nofio yn gynnes iawn. Roedd pawb yn chwarae ar y fflôts. Roedd yna pob math o siapiau gwahanol i'r fflôts.

Nesaf aethon ni i wneud saethyddiaeth. Roedd pawb wedi cael tro i saethu saethau tuag at y targed. Nawr roedd hi'n amser y gwigbartio. Pedwar ar y tro oedd yn cael eistedd ar sled a llithro i lawr y bryn. Roedd pawb wedi cael hwyl yn gwigbartio.

Nawr roedd hi'n amser ein cinio olaf ni yn Llangrannog. Cawsom ni sglodion siâp cylch ac i bwdin cawsom ni jeli, iogwrt, hufen iâ a bara brith.

Ar ôl hynny roedd hi'n amser mynd i'r siop. Yn y siop roedd losin a siocled, pwti a gŵ, peli sboncio, rhwbwyr siâp ffôn a tedi Mr Urdd.

Nawr roedd hi'n amser mynd ar y bws a dweud hwyl fawr wrth Llangrannog am flwyddyn arall. Diolch yn fawr iawn i Miss Morris a Miss Watkin am fynd gyda ni ac i staff Llangrannog a staff Urdd Ceredigion am y croeso. Gobeithio y cawn ni ddod yn ôl eto flwyddyn nesaf. Ariana, Hedydd, Martha a Siskin

Cogurdd

Mae'n braf gweld cymaint o ddiddordeb yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd eleni eto. Mae'r gystadleuaeth yn un heriol iawn a'r gamp eleni oedd paratoi cebab ffrwythau, a hynny mewn amser byr iawn! Roedd safon uchel iawn i'r cystadlu ac ar ôl hir bendroni yr enillydd eleni oedd Elen Lloyd Williams sy'n mynd i gynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf. Diolch o galon i Mrs Myfanwy James am y dasg anodd o feirniadu eleni eto. Pob hwyl i ti Elen yn y rownd nesaf yn Ysgol Bro Teifi

Ysgol Iach

Mae Tymor y Gwanwyn wastad yn brysur yn y pwll nofio. Mae Cylch Aberystwyth yn cynnal gala blynyddol ac roedd hi'n braf gweld cymaint o blant Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu'n frwd unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu ac yn arbennig i Finley, ac Elen am ennill eu rasys unigol ac i'r merched am ennill eu rasys cyfnewid.

Da iawn Hopcyn, Cian Elen, Ava, Grace, Alys, Martha, Lela, Maia, Hedydd, Siskin, Ariana, Shae, Osian a Bleddyn.

Yn ystod y mis hefyd, mae Urdd Gobaith Cymru yn cynnal eu gala cenedlaethol ym Mae Caerdydd. Mae goreuon Cymru yn cystadlu yn y bencampwriaeth yma ac yn eu plith yr oedd Finley Saycell o Ysgol Tal-y-bont. A'r newyddion gwyh yw bod Finley wedi ennill medal efydd am nofio yn y dull rhydd. Dyma gyfweliad arbennig gyda'r pencampwr diymhongar:

Sut oeddet ti'n teimlo cyn y ras? – “Roeddwn i'n teimlo'n gyffrous ond yn eithaf nerfus hefyd ar y dechrau achos doeddwn i ddim wedi rasio yn erbyn y plant yma o'r blaen. Roedd yn rhaid i fi nofio mewn ras cyn cyrraedd y ras derfynol”.

Sut oeddet ti'n teimlo ar ôl y ras? – “Roeddwn i'n teimlo'n hapus iawn achos fy mod wedi cael medal efydd o holl blant Cymru”.

Sut wnest ti ddathlu? – “Aethon ni i ddathlu yn bwyty *Global Buffet* yn y Bae ac fe ges i flas o bopeth. Roedd y rhan fwyaf o bethau'n flasus iawn, yn enwedig y sweet potato fries!”

Ers pryd wyt ti wedi dechrau nofio o ddifri? – “Dim ond ers un blwyddyn”.

Wyt ti wedi gorfod ymarfer yn aml felly? – “Ydw. Dwi angen ymarfer bob dydd o'r wythnos yng Nghanolfan Hamdden Plascrug. Weithiau dwi'n nofio rhwng 6 a 7 o'r gloch y bore a weithiau rhwng 6 a 7 o'r gloch y nos.”

Wyt ti'n meddwl parhau gyda'r nofio yn yr ysgol uwchradd? – “Ydw. Rwy'n mwynhau nofio ac yn edrych ymlaen i ddal ati i nofio mewn galas ar draws Cymru”.

Wyt ti'n gorfod dilyn deiet arbennig? – “Na dim o gwbl! Dwi'n bwyta popeth yn arbennig Pizza a sglodion!”

Pwy sydd wedi helpu ti gyda dy nofio? – “Mam a Dad – diolch yn fawr am gefnogi fi a helpu fi”.

Blwyddyn Newydd China

Am ffordd wych o ddathlu Blwyddyn Newydd China yn y Cyfnod Sylfaen. Cafwyd tipyn o hwyl yn symud a dawnsio yng nghrombil y dreigiau ac roedd sawl un wedi aros yn stond wrth basio heibio a gweld yr olygfa anghyffredin! Diolch yn fawr i Mrs Griffiths ac i dim cynhyrchu Panto Aberdyfi am gael eu benthyg.

Cestyll a Dreigiau

Thema'r Cyfnod Sylfaen y tymor yma yw cestyll a dreigiau. Ond faint o ysgolion sy'n cael y fraint o gael marchog go iawn yn ymweld â nhw. Diolch yn fawr i Meic y Marchog ac i Phil am ddod atom i ddangos y gwisgoedd gwyh a'r arfau hefyd!

Gwaith Celf

Mae plant Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn astudio ac efelychu gwaith Niki Pilkington dros yr wythnosau diwethaf. Mewn ymateb i weld gwaith y plant cafwyd negeseuon hyfryd ar Trydar gan yr artist. Yn wir, roedd hi mor hapus i weld y gwaith fel bod ei chalon bron â ffrwydro! Da iawn chi blant.

Ymwelydd Anghyffredin

Fel rhan o waith thema Dosbarth 5 a 6 ar anifeiliaid, roedd hi'n hyfryd i groesawu Timi'r jerbil atom. Roedd Summer wrth ein bodd yn rhannu gyda ni sut i ofalu amdano'n iawn ac fe rannodd sawl stori ddiddorol am gampau Timi hefyd!

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



Erbyn hyn, mae'n siŵr 'da fi bod pawb sy'n darllen Papur Pawb bob mis yn gyfarwydd â siop a chaffi Cletwr, a rhai o'r digwyddiadau a gweithgareddau i'r gymuned sy'n digwydd yn yr adeilad.

Ond mae Cletwr yn gwneud mwy. Mae adroddiad mewn erthygl ar wahân am y newyddion diweddaraf am ein hymgyrch codi arian ar gyfer *ToiletTwining*. Ond rydym fel cymuned wedi gweld sut mae Cletwr (y bobl, nid jyst yr adeilad) wedi trawsnewid ein cymuned er gwell. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl a gyfrannodd arian at y prosiect, ac yn awyddus i ddiolch iddyn nhw oll mewn ffordd ymarferol. Felly rydym wedi gweithio gyda nifer o grwpiau ledled Prydain sy'n meddwl am sefydlu rhywbeth tebyg, drwy gynnig cyngor ac yn siarad am ein profiadau (da a drwg) ers i ni gychwyn. Peth da oedd cael y newyddion bod grŵp yng Ngwlad yr Haf yn bwriadu ail-agor eu siop pentref fel busnes cymunedol ar ddiwedd y mis. Mae Mike a Sarah Clarke (Tŷ Celyn, Taliesin, gynt) bellach yn byw yn yr ardal, ac awgrymodd y dylen nhw gysylltu â ni. Cawsom sgysiau hir 'da nhw, ac mae'n braf gweld cymuned arall ar fin gweld y buddion o sefydlu busnes cymunedol. Pob lwc iddyn nhw.

Mae ein gwaith o gefnogi busnesau eraill yn cymryd cam ymhellach. Mae Karen Evans, ein rheolwr, wedi cael ei derbyn i weithio fel 'peer mentor' swyddogol i fusnesau eraill, dan Raglen Atebion Mentrus Llywodraeth Cymru. Ond peidiwch â phoeni, dydy hi ddim yn ein gadael ni! Rôl rhan amser yw hon, yn gweithio am ychydig ddyddiau gyda grŵp arall. I gychwyn, bydd hi'n helpu grŵp yn Sir Fynwy sy'n bwriadu agor caffi cymunedol. Braf gweld bod gwaith ein staff a gwirfoddolwyr wedi cael ei gydnabod gan y llywodraeth.

Ydych chi wedi clywed am 'Time Banking'? Dyma gynllun newydd i hybu gwaith gwirfoddol mewn cymunedau. Mae Aaron newydd fynychu cwrs i ddeall mwy am redeg y rhaglen, sy'n cynnig cyfle i bobl recordio eu horiau gwirfoddoli, a'u cyfnewid am fuddion gyda busnesau eraill. Cadwch lygad ar agor am fwy o fanylion ar y rhaglen.

Beth sydd ar y gweill nesaf? Wel, yn gyntaf, rhywbeth i wella ein cymuned – clirio'r sbwriel oddi ar ochrau'r ffyrdd. Os ydych chi am helpu am awr neu ddwy (a chael dishgled am ddim wedyn!) dewch i'r siop am 9.30, Sadwrn 7fed o Fawrth. Darperir bagiau, siacedi *hi-viz*, *litter-pickers* ayyb.

Adloniant? Bydd 'Noson Meic Agored' ar 29 Chwefror. Dylai fod yn ddiddorol – cyfle i weld pa dalent sy'n cuddio yn ein mysg! Ac wrth gwrs nifer o weithdai celf a chrefft – mae Anne Thomas yn dechrau cwrs newydd ar beintio Mandalas ar 18 Chwefror. A rhestr hir o bethau eraill wrth gwrs, manylion llawn ar ein gwefan a'n gweplyfr.

Y LLEW GWYN

Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrw: £7.95 Dau gwrw £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Y diweddarar o BroAber360

gan Daniel Johnson – ysgogydd Bro360 yng ngogledd Ceredigion

Helo bawb!

Mae sbel fach wedi mynd heibio ers fy ngholofn ddiwethaf yn *Papur Pawb*, ond mae hi wedi bod yn ddechrau cyffrous iawn i'r flwyddyn ar **BroAber360**. Bues i a Lowri mewn 'sgrym straeon' yn Nhal-y-bont yn ddiweddar – cyfle i gwrdd â rhai ohonoch a thrafod syniadau am y straeon sydd angen sylw yn y fro. Ac roedd y sgwrs wedi esgor ar sawl stori dda!

Ymhlith y straeon diweddar gan bobol o'r fro hon mae darn barn gan Ani Jenkins am Ymgyrch 'Meat free March' Macmillan, a cherdd am deimladau Phil Davies, wrth iddo ddisgwyl i Siop y Pentre ailagor – stori sy'n adleisio teimladau sawl un arall ohonoch, dw i'n siŵr! Ewch i **broaber360.cymru** i'w mwynhau ac i adael sylwadau. Cofiwch y gallwch 'ddiolch' am stori hefyd, drwy bwyso'r botwm!

Yn ôl y Calendr Celtaidd, dechrau Chwefror yw dechrau'r gwanwyn. Cyfnod pan mae gweithgarwch ein yn bröydd yn eu hanterth, yn enwedig gyda Gŵyl Ddewi ar y gorwel. Oes 'da chi ddigwyddiad chi eisiau ei hyrwyddo? Mae croeso chi ddefnyddio calendr digidol y wefan – y lle newydd i grynhoi holl ddigwyddiadau gogledd y sir.

- ewch i **BroAber360.cymru**
- crëwch gyfri trwy bwyso 'Ymuno' a dilyn y cyfarwyddiadau
- ewch i 'Creu > Digwyddiad'.

Os oes gennych syniad am stori, neu os hoffech drafod y wefan neu gael cyngor, byddaf yn galw heibio i Gaffi Cletwr (10-11) a Chaffi Gruff (11-12) bob bore Mawrth, neu cysylltwch ar **daniel@bro360.cymru** neu 01570 423529.

Byddwn hefyd yn cynnal sesiwn syniadau ar **nos Fawrth 25 Chwefror yn Arad Goch**, lle byddwn yn cynllunio lansiad swyddogol eich gwefan! Croeso cynnes i bawb.

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis

Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru

Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 **afiaith@aol.com**

Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Yng nghyfarfod cyntaf 2020 cafwyd noson yng nghwmni Rhys Huws. Ar ddechrau'r noson cawsom i gyd brofiad newydd iawn o wisgo ffonau clust a chlywed Rhys yn cyfieithu cyflwyniad ei wraig Trish i'r noson. Ers ymddeol o'i waith fel Pennaeth Ysgol rhyw 18 mlynedd yn ôl mae Rhys wedi cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ac yn ystod y cyfnod hwn mae wedi cyfieithu mewn cyfarfodydd yn lleol, ar draws Cymru a thu hwnt.

Rhoddodd Rhys flas i ni o'r math o achlysuron y bydd yn cyfieithu – er enghraifft cyfarfodydd ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Llyfrgell Genedlaethol ond bydd hefyd yn cael cais i gyfieithu mewn achlysuron arbennig fel priodasau ac angladdau. Mae yna heriau arbennig i'r gwaith ac yn aml mae angen tipyn o waith paratoi ymlaen llaw i ymglyfarwydo â geirfa arbenigol, a'r *acronyms* newydd sy'n ymddangos yn gyson. Yn ôl Rhys cyfieithu barddoniaeth yw un o'r heriau mwyaf! Un peth sy'n sicr, roedd pawb yn gytun bod angen meddwl chwim iawn i wneud y gwaith.

Diolchwyd i Rhys gan Eirian Evans ac yn ôl yr arfer mwynhawyd paned a sgwrs cyn troi am adre. Yn ystod y cyfarfod cytunwyd i gyfrannu £100 at Apêl Eisteddfod Ceredigion 2020. Bydd ein cyfarfod nesa yng ngwaelod y Neuadd ar Chwefror 17 pryd y byddwn yn croesawu Meinir Edwards atom.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Ionawr 2020

Cynhaliwyd cyfarfod misol cyntaf y flwyddyn ar Nos Lun, 27 Ionawr 2020, gyda wyth o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd a'r Clerc, Mr Rab Jones, ac hefyd Mr Keith Henson, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion a'i Ffiniau. Dymunodd y Cadeirydd, Cyng David Jones, groeso cynnes a blwyddyn newydd dda i bawb.

Cyflwyniad gan Mr Keith Henson

Cychwynnwyd y cyfarfod gyda cyflwyniad gan Mr Keith Henson yn egluro ei waith fel Hwylusydd Tai Gwledig. Yn dilyn cyflwyniad diddorol atebodd nifer o ymholiadau gan y Cynghorwyr.

Cymorthdaliadau 2020

Prif drafodaeth y noson oedd cadarnhau cymorthdaliadau y Cyngor Cymuned ar gyfer 2020. Bu'r is-bwyllgor cyllid yn ystyried y ceisiadau yn ystod y pythefnos blaenorol a chytunwyd cadarnhau argymhellion yr is-bwyllgor i gynnig cymorthdaliadau at y mudiadau lleol canlynol: Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont, Clwb Pêl-droed Tal-y-bont, Clwb Ieuencid Tal-y-bont, Ffrindiau Cartref Tregerddan, Cylch Meithrin Tal-y-bont, Cymdeithas Papur Pawb, Cymdeithas Amaethyddol Tal-y-bont (Sioe Tal-y-bont), Neuadd Goffa Tal-y-bont, a Chlwb Brecwast Ysgol Tal-y-bont.

O fewn y Sir cytunwyd cymorthdaliadau i Cruse Ceredigion a Threialon Cŵn Defaid Rhyngwladol ar gaeau Tancastell, Rhydyfelin, Aberystwyth ym Mis Medi 2020. Allan o'r mudiadau Cenedlaethol, cytunwyd cadarnhau cymorthdaliadau i Bobath, Calonnau Cymru, Tenovus a Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru.

Cynllunio

Trafodwyd ddau gais cynllunio newydd yn ystod y cyfarfod, un i godi uned da pluog a gweithgareddau eraill yn Tynant, Tal-y-bont, ac un i godi estyniad un llawr i Rhif 9, Dol Pistyll, Tal-y-bont. Cytunwyd cynnig dim barn ar y ddau gais.

Seremoni Goleuo'r Nadolig

Cafwyd diweddariad ar Seremoni Goleuo'r Nadolig yn Mis Rhagfyr a chadarnhawyd fod angen trwsio un darn o'r goleuadau ar y Neuadd Goffa cyn seremoni 2020. Diolchwyd i bawb am eu gwaith caled tuag at y seremoni.

Materion Ffyrdd a Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o eitemau sydd angen sylw ar y ffyrdd yn y Gymuned a nifer o faterion eraill. Cadarnhaodd y Clerc fod cwmni Aber Glazing wedi trwsio'r panel yn y lloches bws ger Ysgol Tal-y-bont. Cytunwyd taliad am y gwaith yma a nifer o daliadau eraill.

Sedd Wag ar y Cyngor a'r Cyfarfod Nesaf

Cafwyd diweddariad gan y Clerc ar y broses o lenwi'r sedd wag ar y Cyngor Cymuned ac eglurwyd nad oedd unrhyw un wedi dangos diddordeb mewn llenwi'r sedd wag hyd yn hyn. Atgoffwyd y Cynghorwyr bod cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, 24 Chwefror 2020.

Rab Jones – Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD REHOBOTH

Estynnodd Eiriona Metcalfe groeso i bawb i'r cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 14 Ionawr. Elisabeth Wyn, Penrhyn-coch, oedd y gwestai am y prynhawn, a theitl ei sgwrs oedd 'Blwch Atgofion'.

I gychwyn, dangosodd flwch pren a wnaed gan ei thad pan symudodd hi i Benrhyn-coch yn 1985 ac yntau wedi cerfio llythrennau cyntaf ei henw a'r dyddiad ar gaeaf y blwch. Oddi mewn iddo, ac ar y bwrdd o'i blaen, roedd llawer o eitemau a drysorwyd gan Elisabeth o ddyddiau ei phlentynod ymlaen, gyda hanesyn diddorol am bob un. Wrth ddangos yr eitemau, cawsom rai hanesion am ei chyfnod yn Ysgol Gynradd Dinas Mawddwy, yr Ysgol Sul, Ysgol Dr Williams, Dolgellau, a phan fu'n gweithio yn Swyddfa'r Urdd a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg yn Aberystwyth. Roedd sawl enghraifft o lwyau caru a gwaith pren a wnaed gan ei thad ar y bwrdd hefyd, ynghyd â thrysorau a ddaeth Elisabeth yn ôl gyda hi i'w hatgoffa o'r gwledydd tramor y bu'n ymweld â hwy dros y blynyddoedd. I orffen, dangosodd nifer fawr o eitemau gwaith llaw a wnaed ganddi hi, yn cynnwys gwaith arlunio a gwnïo o bob math. Diolchwyd iddi am brynhawn diddorol dros ben, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Bethan Davies a Carys Briddon.

Stori Papur Pawb ac Ap Gary yn cael sylw byd-eang

Tybed sawl stori ym mhapurau bro ein gwlad sy'n mynd tu hwnt i'r Fro? Yn ôl pob tebyg dim llawer ond aeth stori dudalen flaen Papur Pawb mis Ionawr rownd y byd, yn llythrennol.

Roedd Craig Duggan, y gŵr sy'n gyfrifol am gasglu newyddion y BBC yng nghanolbarth Cymru, ar stepen drws Gary Jones ein fferylllydd ar y prynhawn Gwener yr ymddangosodd yr erthygl ym *Mhapur Pawb*. Cafodd Gary ei gyfweld gan S4C ac aeth y stori i adran Saesneg y BBC ac ymhellach na hynny i'r BBC *WorldWideWeb*. Daeth ymatebion i hyn hyd yn oed o Awstralia a daeth cwmni sy'n gwneud labeli i'n moddion yn Ffrainc a Phrydain i gysylltiad er mwyn ymuno yn y gwaith arloesol mae Gary yn gwneud.

Roedd aelodau o *Pro Delivery Manager Ltd.*, cwmni Gary, wrth eu bodd gyda'r sylw byd eang. Dyma'r cwmni sydd yn edrych ar y sefyllfa o ochr y fferylllydd, hynny yw, yn sicrhau bod pob dim yn gywir o'u hochr nhw a bod y ffisig iawn yn gadael y fferyllfa i'ch cyrraedd chi yn eich cartrefi. Ond yn ystod y mis diwethaf daeth cwmni o Awstralia i gysylltiad yn dangos diddordeb mewn ymuno gan edrych ar y sefyllfa o ochr y claf, sef chi a fi.

Ar ben hyn oll mae Llywodraeth Cymru wedi dangos mwy o ddiddordeb yn y mis diwethaf ac yn awyddus i ehangu'r gwasanaeth a gynigir gan Gary ymhellach na chylch *Papur Pawb*, i ardal Hywel Dda i ddechrau ac, os yw'n llwyddiannus, i Gymru gyfan.

Bwriad y Llywodraeth yw i gadw llygad mwy manwl ar y sawl sydd yn derbyn eu moddion yn wythnosol neu'n fisol. Gall y person sy'n cnocio ar eich drws ddangos mwy o ddiddordeb nag arfer ac, o bosib, holi a ydych wedi cael pryd cynnes yn ddiweddar neu a ydych chi wedi cael cwmni rhywun i dorri ar yr unigrwydd sy'n gallu llethu bobl. Petai'r dosbarthwr yn sylwi bod y sefyllfa yn anfodddhaol gall hysbysu'r fferylllydd ag yntau'r meddyg teulu er mwyn ymyrryd er lles y claf. Yn y pen draw y gobaith yw y bydd hyn oll yn golygu llai o ymweliadau at y doctor, gan ysgafnhau'r baich arnynt. Gall fod o les i ninnau hefyd er mwyn i ni heneiddio'n iachach a gallu cael apwyntiad cyflymach nag arfer yn y feddygfa.

Mae *Papur Pawb* ar werth yn y fferyllfa ac mae mwy o gopiau na'r arfer wedi eu gwerthu yno yn ystod mis Ionawr a sawl un yn gofyn i Gary lofnodi'r erthygl!

Dydd a Nos

Dyma bennod 6 o'r stori dditectif gan Geraint Evans. Y tro hwn cawn wybod mwy am y cyffur a ddefnyddiwyd gan y llofrudd.

Safai Gareth o flaen bwrdd gwyn i edrych ar y lluniau o Meurig Rhys a Nyrs Benson, y ffoto o Penlan a thoriadau'r wasg. "Y ffeithiau Teri, dechrau gyda'r Athro."

"Chwe deg saith mlwydd oed, problemau iechyd. Cyfoethog, gyrfa ddisglair, wedi chwerwi. Ffydd a chrefydd yn bwysig. Unig, cylch cyfyng o ffrindiau, bron i gyd yn ddynion a phawb yn sôn am yr ysfa am breifatrwydd. Siofinist, ag eto yn ei salwch mae'n croesawu merch o nyrs i ofalu amdano. Dyma'r unigolyn mae Rhys yn disgrifio yn y nodyn fel rhywun creulon, twyllodrus ac anffyddlon."

"Ac amdani hi?"

"Gwybod nesa' peth i ddim. Yn gyntaf, pwy yw Benson? Oes, ma gyda ni lun ac ar yr ochr bositif Ellen Parry a Charlotte Wright yn gytûn. Ar yr ochr negyddol y ddynes yn y llun yn debyg i dalp helaeth poblogaeth benywaidd Ceredigion. Neb yn adnabod hi o'r llun, dim cofnod pendant gan y sefydliadau nyrsio a gofal. Neb hefyd yn cael mynediad i Penlan, Doctor Wright yn eithriad. Atal pawb arall wrth stepen y drws. Fan Tesco yn galw'n rheolaidd a'r archeb yn dangos cynnydd o ran gwin a wisgi – Glenmorangie oedd y ffefryn. Benson yn gadael y tŷ yn wythnosol ac gefn motor-beic, wedi'i gwisgo mewn siwt ledr a helmed. Un o bwrpasau'r siwrne oedd mynd i'r banc i godi £300 ar gerdyn Rhys. Camerâu cylch cyfyng y banc yn dangos person mewn helmed yn codi'r pres. Y swm efallai at anghenion dydd i ddydd ac yn fwy tebygol at dalu cyflog Benson. Arian sychion sylwer. Er y symiau sylweddol yn y cyfrifon, dim byd amheus yn ôl y rheolwr banc. Sy'n dod â ni at yr ail gwestiwn, pam? Beth yw'r motif? Nid arian. Ar wahân i'r trosglwyddo wythnosol mae ffortiwn Meurig Rhys yn dal yn saff. Y trydydd cwestiwn, shwt? Patholegydd Bronglais gymaint yn y niwl â ni. At rheina alle ni ofyn shwt mae Rhys yn ffeindio Benson, neu o droi'r holl beth rownd, shwt mae Benson yn ffeindio Rhys? Ar drywydd gwahanol y cyfreithiwr yn cadarnhau mai Marian Fosse yw'r etifedd, cyfanswm o dros ddwy filiwn a hanner ac yn awchu am y pres. Od am ddynes oedd yn gwadu nad oedd hi yn poeni taten am gyfoeth ei chefnider."

Bu rhaid i Gareth wrando hyd syrffed am safbwynt – na rhagfarn – Teri am Marian Fosse. "Anghofia am honna. Ma gyda ni ddigon ar ein plât heb boeni am y Fraulein. Dwi am..." Canodd y ffôn ac ar derfyn sgwrs fer dywedodd, "Dewi Roberts, pennaeth y sgwad fforensig. Angen ni yn Penlan ar unwaith."

Roedd Roberts yn disgwyl amdanynt yn 'stafell wely Rhys. "Ni wedi cynnal archwiliad manwl o'r sied ac yn parhau i fynd drwy'r tŷ. Marciau olwyn tu allan a thu fewn i'r sied yn dangos i'r corff gael ei symud i'r sied mewn whilber. Ffeibrau ar ymylon y whilber a adawyd yn yr ail sied gyda gweddill yr offer gardd.

Yn naturiol dim marciau bysedd a gormod o dramwy i ganfod patrwm penodol ôl-traed. Diffyg gofal fan 'na ond gofal mawr yn y tŷ, dim marciau bysedd, pob dodrefnyn, pob bwlyn drws, pob arwynebedd yn lân ar wahân i'ch olion chi wrth gwrs. Fel ymhob achos, y troseddwr yn tybied bo nhw'n glyfar ag eto fel ymhob achos ddim cweit digon clyfar. Wastad yn gadael rhywbeth, wastad yn anghofio ac mewn tŷ mawr fel Penlan haws o lawer anghofio." Cododd Dewi Roberts amlen blastig o fwrdd gwisgo a dangos y bilsen tu mewn. "Ffeindio honna rhwng y matras a phen y gwely. Sylwch ar yr enw ar y bilsen, 'erox', un o'r enwau ar y cyffur 2C-B, cyffur a fasnachwyd fel aphrodisiac."

"Effaith?", holodd Gareth mewn syndod.

"2C-B yn gyffur seicedelig, lledrithiol sy'n gallu pendilio rhwng tawelu ac adfywio gyda'r effaith yn taro mewn tonnau isel ag uchel. Gwneud i chi brofi realiti mewn ffordd ryfedd o ran gweld a chlywed a chreu teimladau cariadus tuag at eraill. Anodd canolbwyntio, tueddiad i giglan, cryndod a methu cadw balans, dyna'r prif sgil-ffeithiau ac os yw'r ddos yn uchel, cur pen ofnadwy."

Roedd y rhestr yn adlais, bron air am air, o ddisgrifiad y meddyg o symptomau Meurig Rhys. "A beth am gymysgu'r cyffur gydag alcohol?"

"Dibynnu eto ar y ddos a'r lefel o alcohol. Hyd yn oed ar lefelau cymedrol bydda'r unigolyn yn ffwndrus ac i raddau helaeth yn agored i bob awgrym a gorchymyn. Gyda llaw, meddiant, cynhyrchu neu gyflenwi 2C-B yn anghyfreithlon a'r gosb lan at saith mlynedd o garchar. Bosib prynu ar y we dywyll, am gost wrth gwrs...Dal i chwilio'r 'stafelloedd byw ac os daw rhywbeth i'r fei, gewch chi wybod ar unwaith."

O ganfod y cyffur sylweddolodd Gareth a Teri fod y cwestiwn sut, wedi'i ateb. Roedd Benson wedi drygio Rhys i'r fath raddau hyd nes ei fod yn byped o dan ei dwylo. Hi yn tynnu'r cortynnau ac yntau yn ufuddhau i bob plwc fel sombi. Tynnu, tynnu yn ddirugaredd ac yna ei ladd.

"Teimladau cariadus, aphrodisiac?" gofynnodd Teri, "ti'n meddwl fod Rhys gymaint o dan ddylanwad y stwff fel i fod e wedi cysgu gyda'i nyrs?"

Camodd Gareth at y ffenest ag ystyried am eiliad wrth wyllo criw yn reidio ceffylau heibio dreif Penlan. Er y gwybod sut, roedd y pwll o ddirgelwch am y mwrddwr yn ddyfnach nag erioed a chwestiwn syfrdanol Teri ond yn ychwanegu at y dryswch. Trodd ar ei sawdl ac wrth iddo wneud tarodd yn erbyn cwpwrdd a gwthio'r Beibl i'r llawr. Aeth ati i'w godi, sylwi ar y nod llyfr, agor y dudalen a gweld adnod a farciwyd mewn beiro.

Dydd a nos yr amgylchant hi ar ei muriau: ac y mae anwiredd a blinder yn ei chanol hi.

"Neges arall gan Meurig Rhys? Os felly beth ar y ddaear yw'r ystyr? Allai dderbyn mai 'hi' yw Benson, person yr anwiredd a blinder ac mai Penlan yw'r 'muriau'. Ond pam dydd a nos?"

hawlfraint © Geraint Evans

Mae'r heddlu ar drywydd y llofrudd. Gwnewch yn siwr o'ch copi o rifyn Mawrth er mwyn darganfod mwy.

Tensiwn ar bob tudalen!

Nofelau ditectif
GERAINT EVANS

y **olfa.com**
Llyfrau dros Gymru





Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

O'r Senedd - Elin Jones

Dyma fy erthygl gyntaf eleni, ac rwy'n edrych ymlaen unwaith eto i gynrychioli Ceredigion yn ein Senedd. Hoffwn achub ar y cyfle i longyfarch Ben Lake ar gael ei ail-ethol i gynrychioli Ceredigion yn San Steffan – dwi'n falch iawn y byddaf yn gallu parhau i weithio'n agos ag ef.



Un o fy nghyfarfodydd cyntaf eleni oedd gyda Gweinidog Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn Bow Street, i drafod yr orsaf newydd a'r angen brys i wella diogelwch ein priffyrdd. Mae gwella diogelwch ffyrdd yn rhywbeth dwi'n gweithio arno ym mhob rhan o Geredigion, ond fel dangoswyd gan ddamweiniau difrifol yn ddiweddar, mae'r rhan yma o'r A487 yn arbennig o beryglus. Mae angen cyffyrdd newydd a lleihau cyflymder y traffig.

Yn y maes iechyd, rwy'n falch iawn i weld bod sganiwr newydd MRI Bronglais ar gychwyn. Roedd hwn yn ymgyrch hir, ac mae sawl ymgyrch arall ar y gweill. Eleni, byddaf yn parhau i geisio gwella'r ddarpariaeth o ddeintyddion yng Ngheredigion, ac i geisio sicrhau bod nyrsys ar gael sy'n arbenigo mewn epilepsi, Parkinson's a meysydd eraill hefyd.

Yn olaf, braint oedd cael llongyfarch Papur Sain Ceredigion ar lawr y Senedd ar ddathlu 50 mlynedd o wasanaeth i'r deillion Ionawr eleni. Diolch i'r holl wirfoddolwyr.

AMSERLEN NEWYDD S4C

Mae S4C yn lawnsio amserlen newydd sbon – eich amserlen chi.

Rydyn ni wedi trafod a gwrando ar farn ein gwylwyr ac mae'r amserlen wedi ei llunio er mwyn cysoni rhaglenni newyddion ac operâu sebon, a chynnig cyfresi newydd cyffrous.

O 24 Chwefror ymlaen bydd modd i chi fwynhau:

- Newyddion nos Lun i Gwener am 7.30
- Pobol y Cwm nos Lun i Iau am 8.00 gyda rhifyn estynedig ar nos Fercher
- Rownd a Rownd nos Fawrth a Iau am 8.25
- Ffermio yn symud i 9.00 ar nos Lun
- Cyfresi cyfarwydd a newydd am 9.00 o nos Lun i nos Iau gan ddechrau gyda Corau Rhys Meirion, Ysgol ni: Maesincla, Cynefin a Jonathan.
- Chwaraeon byw ar nos Wener
- Rhaglen ychwanegol o Heno yn fyw ar Nos Sadwrn am 7.30 (gan ddechrau ar 8 Chwefror)

Wrth gysoni ein rhaglenni, rydym wedi gwneud y dewis yn hawdd i chi.

Mwynhewch yr arlwy!

Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru



Glywsoch chi am Restr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru? Mae'n brosiect hirdymor gan y Comisiwn Brenhinol, gyda nawdd Llywodraeth Cymru i gasglu ein henwau lleoedd a'u diogelu mewn cronfa y bydd ar gael i'r cyhoedd. Ar hyn o bryd, mae rhyw 700,000 o enwau'n fyw ar y wefan; mae'r rhain yn amrywio o enwau trefi a phentrefi i enwau creigiau, mynyddoedd, strydoedd, nentydd, afonydd, caeau a chlogwyni. Rhywbeth i bawb, wir yr!

Mae colli enwau lleoedd Cymraeg yn dipyn o bwnc llosg ar hyn o bryd, ac un o'r rhesymau dros sefydlu'r rhestr oedd sicrhau y byddai enwau'r tai sy'n cael eu hailenwi'n cael eu cofnodi fel na fyddent byth yn mynd yn angof, er nad ydynt bellach i'w gweld ar furiau'r tai. Crëwyd y rhestr er mwyn diogelu treftadaeth enwau lleoedd Cymru, galluogi'r cynghorau sir i berswadio pobl i beidio â newid enwau, a sicrhau bod enwau hanesyddol yn parhau i gael eu defnyddio'n ffurfiol ac yn anffurfiol. Yn sgil hyn, mae nifer o ystadau tai newydd ar draws y De a'r Gorllewin wedi cael eu henwi gydag enwau hanesyddol a ddiogelir yn y rhestr, ac mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol bellach yn defnyddio ein data yn eu gwaith. Parthed yr ymgais i atal diflaniad enwau, mae'r cynghorau sy'n defnyddio'r rhestr wedi ymrwmo i gofnodi faint o bobl sy'n



penderfynu newid enwau eu tai, a pha ganran o'r rhain maent wedi perswadio i ailfeddwl. Rwyf yn falch o allu adrodd bod Ynys Môn yn benodol wedi gweld gostyngiad yn nifer y rheiny sy'n newid enwau lleoedd yn sgil y ddeddfwriaeth newydd, a'r gobaith yw y bydd y tueddiad hwn yn cael ei adlewyrchu ar draws y wlad.

Rydym wedi cofnodi ychydig dros 2,000 o enwau yn ardal Tal-y-bont hyd yn hyn, ond rydym wastad yn chwilio am fwy. Mae'r enwau caeau sydd gennym, er enghraifft, yn dyddio o ddegwm 1841, a byddai'n braf cael cofnodi enwau presennol y caeau, gan ein bod yn ymwybodol bod nifer ohonynt wedi newid ers hynny. Yn ogystal â hyn, os nad yw enw eich tŷ ar y rhestr mae'n bwysig eich bod yn ei anfon i mewn atom rhag ofn iddo gael ei newid yn y blynyddoedd i ddod. Nid oes angen iddo fod yn enw Cymraeg chwaith, mae'r enwau Saesneg hanesyddol sydd gennym yng Nghymru yr un mor bwysig! Os oes gennych enw sydd ond yn bodoli ar lafar, am bwell yn y Ceulan, dyweder, neu am droad yn y ffordd, mae'n bwysig ein bod yn cofnodi'r rhain hefyd – mae pob enw'n cyfrif!

Mae nifer o'r cyhoedd wedi cyfrannu enwau eu tai, neu eu caeau, ac rydym yn ddiolchgar bob tro am gyfraniadau o'r math. Gellir ychwanegu enw(au) at y rhestr trwy ddefnyddio ein ffurflen ymgysylltu: <https://enwaulleoedddhanesyddol.cbhc.gov.uk/cysylltu>

Y Gair Olaf



Wel gyfeillion, mae'r mis bach wedi cyrraedd o'r diwedd. Ac wrth sôn am bethau bach, dyna y byddaf i yn ei drafod yn Y Gair Olaf y mis hwn. Rydw i ar fin dechrau swydd newydd fel technegydd ymchwil fel rhan o brosiect ymchwil newydd yn yr Adran Ddaearyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Diben y swydd honno fydd chwilio am ddarnau bach iawn neu ficrosgopig o ludw folcanig. Wn i ddim a ydych chi'n cofio'r faliwch a achosodd ffrwydrad *Eyjafjallajökull* yng Ngwlad yr Iâ i'r diwydiant awyrennau yn Ewrop nôl yn 2010? Efallai yr oeddech chi'n un o'r miloedd a effeithiwyd yn ystod y cyfnod o dros wythnos wedi iddyn nhw ganslo dros 100,000 o hediadau a gostiodd tua £1.1 biliwn i'r diwydiant awyrennau. Nod y prosiect hwn, trwy chwilio am batrwm echdoriadau folcanig y gorffennol, yw ceisio rhagweld patrymau echdoriadau folcanig er mwyn asesu'r risg neu berygl ffrwydradau o'r fath yn y dyfodol. Sut, felly? Byddwn ni'n troi at waddodion o foroedd a llynnoedd Siapan am atebion. Mae'r gwaddodion hyn yn gweithio fel capsïwl amser arbennig sydd wedi cadw haenau o ludw folcanig a chwydwyd o losgfynyddoedd yn Siapan a thu hwnt. Trwy ddadansoddi'r haenau o ludw folcanig hyn yn fanwl, mi fyddwn ni'n gallu creu darlun cliriach o hanes echdoriadau folcanig y gorffennol. Er mor fach yw'r gronynnau hyn o ludw folcanig, mae'r hyn sydd ganddyn nhw i'w ddatgelu yn medru dweud pethau mawr wrthym. Yr her i mi a gweddill tîm ymchwil y prosiect yw datguddio'r cyfrinachau hynny. Gwydion Jones



Alun Davies

Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH 24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsas a Bubblewrap

Symud gyda 

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE
www.midwalesstorage.co.uk

Mae Laura yn dod o'r Alban yn wreiddiol. Mae'n byw efo'i gŵr a'u plant yn Nhal-y-bont.

Dysgwr y Mis

Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg? Yn wreiddiol roeddwn i eisiau dysgu i helpu gyda chyfleoedd gwaith sy'n gofyn am sgiliau iaith Cymraeg. Roeddwn hefyd eisiau parchu'r diwylliant lle rwy'n byw a gallu siarad â chydweithwyr yn Gymraeg. Yn fwy diweddar, roeddwn i eisiau dysgu er mwyn i mi allu darllen straeon amser gwely yn Gymraeg i'm plant.

Beth yw'r peth mwyaf anodd am ddysgu Cymraeg? Mae gen i broblem ymarfer gydag oedolion. Rwy'n hapus yn siarad â fy mhlant ac athrawon yr ysgol ond gydag oedolion yn unig rwy'n clymu tafod!

Pam bod y Gymraeg yn bwysig? Ein hunaniaeth genedlaethol a diwylliant ein gwlad.

Oes unrhyw beth all ein darllenwyr wneud er mwyn rhoi cymorth i ddysgwyr? Rwy'n ei chael hi'n ddefnyddiol iawn pan fydd pobl yn arafu eu siarad ac os ydw i'n cael rhywbeth o'i le, rydw i'n hoffi cael help i ddod o hyd i'r ffordd cywir o ddweud rhywbeth.

Beth yw eich hoff eiriau Cymraeg? Swigod, wiwer, ysbryd, hiraeth.
Beth ydych yn ei fwynhau am ddysgu Cymraeg? Yn bendant, gallu cael sgwrs gyda fy mhentyn 6 oed dwyieithog lle mae hi'n deall yn berffaith hyd yn oed os yw fy Nghymraeg ychydig yn syml!!



Gwledd o Syria

Rhesom gynnig ar rywbeth gwahanol ar noson Santes Dwynwen/Burns eleni. Fel arfer, rhyw stwnsh diwylliannol sy'n tŷ ni – gyda'r preswyllydd Albanaidd – haggis/maip/cennin/pice ar y maen.

Aethon ni draw i Cletwr ar gyfer noson *Prosiect Cinio Syria*. Dyna beth oedd noson wych! Y caffi'n llawn, ag arogleuon hyfryd. Roedd cymysgedd o bobl yno; rhai lleol ag eraill o bell, gan gynnwys teulu o Lanfair ym Muallt ar ein bwrdd ni – wedi dod yn arbennig am y cinio.

Beth yw *Prosiect Cinio Syria*? Wel, mae'n fwyty 'pop up', sy'n cael ei redeg gan bum merch a'u teuluoedd sy'n ffoaduriaid o'r rhyfel yn Syria a bellach yn byw yn Aberystwyth. Mae'r nhw'n awyddus i gyfrannu at eu cymuned newydd a chynhyrchu incwm iddynt eu hunain. Trwy rannu pryddau bwyd o Syria gyda'r gymuned leol, mae'r merched yn gobeithio:

1. Bod yn rhan o ddiwylliant amrywiol gwledydd Prydain.
2. Adeiladu perthynas gref gyda'r gymuned o'u cwmpas.
3. Diogelu dyfodol eu plant.
4. Ehangu busnes yn lleol.
5. Bod yn rhan o'r gymuned ac nid yn faich ar gymdeithas.
6. Profi bod modd gwneud rhywbeth, er gwaethaf y rhyfel a'r caledi 'roedden nhw wedi ei brofi.
7. Lleihau hiliaeth a chasineb trwy arddangos gwaith caled a chofleidio gwerthoedd gwledydd Prydain.

Roedd y bwyd yn flasus, a'r sgwrs yn fywiog, a llawer i gwestiwn am y bwyd. Beth oedd yr enw, y cynhwysion ac ati? Fy ffefryn fel prif gwr oedd platiad yn cynnwys gwenith durum (*Freekkeh*), a dail gwinwydden (*Warak Enab*). Enwau'n anghyfarwydd, gan swnio'n egsoftig. Cymysgedd o seigiau fegan, llysieuol a chig. A pwdinau diddorol, fy ffefryn oedd *Knafeh*, parsel mêl a phistasio wedi'i wneud â chrwst cain iawn.

Noson ddifyr dros ben a ffordd wych o gefnogi pobl sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi a'u cymuned eu hunain heb unrhyw fai arnyr nhw. Dangosodd sut y gall bwyd ein helpu i ddeall a gwerthfawrogi diwylliannau gwahanol. Roedd hefyd yn braf cael newid o *haggis*! Helen Ovens

CFfl Tal-y-bont



Cinio Blynnyddol Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yn y Marine yn Aberystwyth. (Llun gan APJ)

Cinio Codi Arian



Daeth dros ddeugain o oedolion, plant ac un babi bodlon i'r *Wildfowler*, Tre'r ddôl ar 26 Ionawr i fwynhau cinio Sul hynod o flasus. Trefnwyd y digwyddiad gan Bethan Davies, Dolclettwr ac aelodau o'r pwyllgor apêl lleol er mwyn codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 a gwnaethpwyd elw o £255 yn y cinio. Cyn i bawb droi am adre datgelodd y Trysorydd, Ellen ap Gwynn ein bod eisoes wedi cyrraedd y targed ariannol cyntaf yn dilyn y gwahanol weithgareddau a digwyddiadau a drefnwyd yn ystod y flwyddyn diwethaf ynghyd â chyfraniadau hael gan unigolion, cynghorau bro a chymdeithasau lleol.

Ond gan fod nifer o weithgareddau eisoes wedi eu trefnu ar gyfer y misoedd nesaf bwriedir eu cynnal, cymaint fu'r hwyl a'r plaser wrth gymdeithasu gyda'n gilydd.

Bydd raffl yn cael ei chynnal yn y noson Hwyl Ddewi yn y Neuadd Goffa, cinio Sul yn Y Blac, Tal-y-bont ar 29 Mawrth a drama gan Gwmni Theatr Bara Caws yn y Neuadd Goffa ar 2 Mehefin.

Bydd cyfarfod y Pwyllgor Apêl Lleol yn cwrdd nos Fawrth, 25 Chwefror am 7 yr hwyr yn y Neuadd Goffa. Croeso cynnes i bawb.



EISTEDDFOD CEREDIGION 2020

CHWARAEON

Y TEIGROD YN RHUO



Gyda phob tîm ieuenctid yn chwarae a hyfforddi yn y dre erbyn hyn, mae'n anodd cadw cysylltiad lleol. Ond mae Teigars Tal-y-bont, tîm dan 10, yn parhau i gynrychioli'r pentref.

Tom Cosson o Ddôl Pistyll sy'n hyfforddi'r Teigrod, ac mae tri bachgen o'r pentref sef Osian a Bleddyn Lewis, Llannerch, a Hopcyn Rhys Cosson, yn chwarae'n rheolaidd. Mae sawl un arall yn dod o bentrefi cyfagos – Ynyslas, Clarach, a Bow Street – yn ogystal ag o Aberystwyth ei hun.

Tîm amrywiol yw'r Teigrod – gyda phlant Cymraeg a Saesneg eu mamiaith, dwy ferch fedrus, a gôl-geidwad ac amddiffynnydd sy'n dod o India a Phortiwgal yn wreiddiol! Mae pob un yn cynrychioli Tal-y-bont gydag ymrwymiad yn ogystal â chael hwyl ar yr un pryd. Mae'r tîm wedi gwella yn sylweddol yn ddiweddar ac wedi ennill sawl gêm yn ystod y tymor hyd yn hyn.

Hoffai'r hyfforddwr a rhieni ddolch i Angharad a Caron Owen, yn ogystal ag *Alison Jones Schoolwear*, am eu nawdd hael drwy brynu cit, hwdis a chotiau i'r chwaraewyr.

TC

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

LRJ 


**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins
07958 701861 
llionjenx94@hotmail.co.uk

**argraffu da
am bris da**



ylLolfa
holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT****HUW LEWIS**

HUWLEWISTYRES.COM

**TEIARS
HUW LEWIS**

Glanyrafon
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Rhodfa'r Parc

NOFWRAIG FENTRUS

Euthum am dro i goedwig Allt-y-Crib un bore oer ym mis Ionawr yn gwmni i Linda Denton, Felin Penpompren, Tal-y-bont. Roedd hithau wedi bod yn troedio'r llwybr hyfryd hwnnw drwy gydol y mis am reswm da.

Wedi cerdded am tua hanner milltir troesom i lawr llechwedd serth i ochr yr afon Leri sy'n rhuthro'n gyflym yn y fan honno. Wedi newid i'w dillad nofio, fe fentrodd Linda i'r dŵr rhewllyd a nofio am ychydig tra roeddwn ninnau yn ceisio cadw'n gynnes. Doedd Linda ddim yn nofio yno am yr hwyl yn unig gan ei bod wedi tyngedu i nofio 28 gwaith yn y Leri yn ystod Ionawr er mwyn denu noddwyr (nid nofwyr!) i'w helpu i godi arian ar gyfer achos da.

Ers tro mae Linda wedi bod yn nofio yn yr afon Ddyfi ger Machynlleth gyda chriw o'r enw y '*Mach dippers*' er mwyn codi arian ar gyfer '*Crisis*', sef elusen sy'n cynorthwyo'r digartref. Penderfynodd Linda, serch hynny, y byddai'n nofio yn yr afon Leri yn hytrach na theithio i Fachynlleth yn ystod Ionawr.

Mae Linda yn haeddu cefnogaeth am ei menter ac mae modd anfon arian at yr elusen drwy'r wefan *Just Giving*.

<https://www.justgiving.com/fundraising/mach-dippers>

Erbyn hyn codwyd £4,630.71 at yr achos.

GJ



Casglu Sbwriel yn y Pentref

Dydd Sadwrn 7 Mawrth

09.30 – 11.00

Ymunwch â'r grŵp o wirfoddolwyr i helpu i gadw ein pentrefi'n ddaclus!

Bydd te am ddim ar y diwedd!

Rhowch wybod i ni os ydych yn gallu ymuno!

events@cletwr.com

Ffoniwch - 01970 832 113